# Rheoli prosiectau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli prosiectau rydych chi'n gyfrifol amdanynt.

Mae'r safon hon yn berthnasol i reolwyr ac arweinwyr sy'n gorfod rheoli prosiectau.

Mae cysylltiad agos rhwng y safon hon â CFAM&LFA4 Rheoli rhaglenni. Er mwyn rheoli prosiectau'n effeithiol, rhaid i reolwyr prosiectau fod yn gymwys hefyd mewn amrywiaeth o safonau eraill, megis, CFAM&LBA3 Arwain eich tîm, CFAM&LDB2 Dyrannu gwaith i aelodau'r tîm, CFAM&LDB3 Sicrhau ansawdd gwaith yn eich tîm, CFAM&LEA4 Rheoli cyllidebau, CFAM&LEB3 Rheoli adnoddau ffisegol a CFAM&LEC4 Cyflwyno gwybodaeth.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
trafod a chytuno ar brif amcanion a chwmpas y prosiect arfaethedig a'r adnoddau sydd ar gael gyda noddwyr y prosiect a rhanddeiliaid allweddol eraill
2.
nodi sut mae'r prosiect arfaethedig yn cyd-fynd â gweledigaeth, amcanion a chynlluniau cyffredinol y sefydliad ac unrhyw raglenni gwaith neu brosiectau eraill a wneir
3.
mewn ymgynghori ag aelodau tîm y prosiect, datblygu cynllun realistig a manwl ar gyfer rhoi'r prosiect ar waith a chyflawni ei amcanion
4.
trafod a chytuno ar gynllun y prosiect gyda noddwyr y prosiect a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan newid pethau lle bo angen
5.
rhoi gwybod i aelodau tîm y prosiect ynghylch cynllun y prosiect a'u rolau a'u cyfrifoldebau a rhoi cefnogaeth, anogaeth a gwybodaeth reolaidd
6.
rhoi prosesau ac adnoddau ar waith i reoli risgiau posibl sy'n deillio o'r prosiect a delio â sefyllfaoedd annisgwyl
7.
rhoi cynllun y prosiect ar waith, dewis a defnyddio cyfryngau a thechnegau effeithiol i reoli prosiectau er mwyn monitro, rheoli ac adolygu cynnydd
8.
rhoi gwybod am gynnydd yn rheolaidd i noddwyr y prosiect, rhanddeiliaid allweddol eraill ac aelodau tîm y prosiect
9.
nodi, yng ngoleuni cynnydd, unrhyw broblemau a gododd neu newidiadau a fu i amcanion y sefydliad, unrhyw newidiadau angenrheidiol i gynllun y prosiect, a chael cytundeb noddwyr y prosiect a rhanddeiliaid allweddol eraill lle bo angen hynny
10.
cyflawni amcanion y prosiect mewn pryd ac o fewn y gyllideb
11.

cadarnhau gyda noddwyr y prosiect ac unrhyw randdeiliaid allweddol eraill fod y prosiect wedi'i gwblhau'n foddhaol

12.

gwerthuso llwyddiant y prosiect, gan nodi pa wersi y gellir eu dysgu a'u rhannu

13.

dathlu bod y prosiect wedi'i gwblhau, gan gydnabod cyfraniadau aelodau tîm y prosiect

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*